# PRESIDENT'S ADDRESS

ANNUAL 24 CONFERENCE

NASUWT
The Teachers' Union

## President's Address

Conference – what an honour to address you as the first Muslim President of NASUWT – The Teachers' Union. We are the union of equality, diversity and breaking down barriers, and that is why I stand before you today.

'Give us justice or we will fight!' – this was the rallying call at our union's formation in 1919. Ordinary Teachers doing Extraordinary Things. Nothing has changed. I am in a room of my peers – ordinary teachers that are extraordinary.

I am also the tenth woman NASUWT President, an honour roll I am proud to be on: Sue Rogers, Olwyn Gunn, Pat Lerew, Amanda Haehner, Paula Roe, Kathy Wallis, Michelle Codrington-Rogers, Angela Butler and Rose Carabine!

Step Up Sisters. We need more of us! Be inspired.

I wish to commend the leadership of our General Secretary, Patrick Roach, who has also led the work of the TUC Anti-Racism Taskforce. Not only is the aim of the taskforce to shine a light on racial injustice in the world of work, but it is also about action – organising, bargaining and campaigning to secure real change for working people. With NASUWT leading the way nationally.

I want to recognise the work that our staff members carry out with passion and commitment to ensure a world-class service to our members. Conference – you are the lifeblood of our union as lay activists, and you deserve the recognition for your hard work. Thank you.

Great teachers change lives, and they come along at the right moment. Great teachers put a mirror in front of us to see our potential. They give us courage, give us guidance, and great teachers create leaders of the future. I know this, as a great teacher changed my life; inspired me. She asked me what university I was planning to go to and what I was going to study at college. My parents had arrived from Kashmir in the '60s, not able to speak or write English. I had grown up in Luton in the 1970s to the backdrop of Enoch Powell and his 'Rivers of Blood' speech and the emergence of the National Front. That was not the journey I, or society, expected me to follow. However, to have someone to believe in you lights a spark; in my case, my English teacher, Mrs Burchett. I became the first of my family to go both to college and university. And years later, when I read Nelson Mandela's quote that 'education is the most powerful weapon which you can use to change the world', it resonated at so many levels. Our profession is not ordinary; it is extraordinary; great teachers shaping our future leaders.

I graduated with a BSc Hons in Environmental Science and then a PGCE from Brunel University. In 1996, as a fresh, newly qualified teacher (with a spring in my step) the Schools NASUWT Rep approached me in the staffroom on my first day and said, 'have you joined a union yet?' 'Not yet, Mr Duffy; I will get right on it!' The rest is history: from a Health & Safety Rep, Local Association President and Negotiating Secretary to Co-Chair of the Eastern Region Equalities Committee, member of the National Leadership Advisory, JVP, SVP and, as of today, President of The Teachers' Union – NASUWT.

During my 25 years (and counting) of teaching, I have taught Science across primary, secondary and SEMH needs schools. The highlight was as a senior leader at a PRU, working with the most disadvantaged young people. Cracking the glass ceiling into leadership! I know there will never be a greater reward in education for myself than

working with this challenging, exhausting, inspiring cohort and making a difference every day.

But, Conference, our profession is in crisis due to:

- year-on-year, real-terms cuts to school and college budgets across all of our nations;
- waiting lists for children's mental health support rising to record levels;
- cuts to support for pupils with special educational needs – this is close to my heart as a serving teacher working with the most vulnerable young people for over 25 years;
- school buildings at serious risk of collapse;
- hundreds of thousands of children missing from education; and
- teacher shortages everywhere – as a result of the worst teacher recruitment and retention crisis in half a century.

Cracks in our ceilings and cracks in our education system. And if the next Westminster Government and those of our devolved nations genuinely want to protect the right to education in our schools and colleges:

- reverse the 14 years of chronic underfunding;
- invest in the workforce with world-class pay and working conditions.

Einstein said, 'Education is not just learning of facts but training the mind to think.'

NASA, in the 1960s, conducted a 'creative genius' research study on children. At age 5 the creativity score amongst five-year-olds was 98%; by 15 years it was 12%, dwindling to 2% as adults. Sixty years on, we need to put creativity back at the very top of our demands for a world-class education – a demand that is central to our Teachers' Manifesto.

Has the National Curriculum, with its over-reliance on exams and narrowing of subject choice, failed our young people? Our members are telling us that practical subjects such as Art, Music, and Design are increasingly being devalued due to accountability pressures. Yet research shows how learning music, for example, gives the brain an opportunity to practise abstract and creative thoughts.

On the horizon, the General Election approaches. The potential for real, sustainable change in the educational landscape. Carpe Diem – We will seize the moment to organise and hold the next Government to account. As a strong UK-wide union – across the four nations, the Channel Islands and Gibraltar – we will use this year to fight for all of our members and to serve their interests for better working conditions and pay.

It will be an absolute priority throughout 2024 to hear grassroots member voices through our Equalities Conferences, Devolved Nations Conferences and Regional Conferences. We will ensure the opportunity to engage with our diverse intersectional members and actively seek the views from our:

- women members;
- young members;
- Black members;
- LGBTI members;
- disabled members;
- supply teachers;
- leadership members; and
- independent school members.

Every single member is important to us.
We must remain vigilant in defending our own trade union rights – hard fought for – from the attacks globally by big corporations and right-wing governments.

NASUWT will stand with the entire trade union movement in campaigning to defeat the Strikes (Minimum Service Levels) Act, using all means at our disposal.

NASUWT will also strengthen its campaign for a Better Deal for Teachers throughout 2024 for better pay and working conditions. It is not over.

NASUWT has always worked with the wider TUC and Education International, and we will continue to stand shoulder to shoulder with our trade union comrades everywhere. Promoting gender equality and empowerment and giving a voice to the voiceless.

NASUWT will continue to fight for human rights and justice: responding to the humanitarian crisis in Gaza and in other nations across the globe; working directly with teachers through Education International.

It is in our blood to organise, strategise, call for action, and resist attacks on our rights.

Conference – there are those out there who will say that a campaign of resistance is about law-breaking by trade unions. Our movement is built on resistance and protecting our members' rights.

- We defeated the anti-union ballot threshold when our members voted for industrial action.
- We defeated the unlawful strike-breaking Agency Workers Regulations.
- We will leverage our power to ensure our hard-won rights as trade unionists are strengthened.

Because, Conference, when we fight, we win. We are ordinary teachers but we have done extraordinary things and will continue this proud tradition. Give us justice or we will fight!

I am honoured to be the President of NASUWT – The Teachers' Union.

Solidarity.

## Anerchiad y Llywydd

Cynhadledd – anrhydedd mawr i mi yw eich annerch fel Llywydd Mwslemaidd cyntaf NASUWT – Undeb yr Athrawon. Ni yw undeb cydraddoldeb, amrywiaeth a chwalu rhwystrau, a dyna pam yr wyf yn sefyll ger eich bron heddiw.

'Rho gyfiawnder i ni neu fe frwydrwn!' – dyma'r alwad rali pan ffurfiwyd ein hundeb yn 1919. Athrawon Cyffredin yn Gwneud Pethau Anghyffredin. Does dim byd wedi newid. Rwyf mewn ystafell llawn cyfoedion – athrawon cyffredin ond anghygoel.

Fi hefyd yw degfed Llywydd benywaidd NASUWT - anrhydedd yr wyf yn falch ohonni: Sue Rogers, Olwyn Gunn, Pat Lerew, Amanda Haehner, Paula Roe, Kathy Wallis, Michelle Codrington-Rogers, Angela Butler a Rose Carabine!

Ymlaen chwiorydd. Mae angen mwy ohonom ni! Cael eich ysbrydoli gan hyn, da chi.

Hoffwn ganmol arweinyddiaeth ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Patrick Roach, sydd hefyd wedi arwain gwaith Tasglu Gwrth-Hiliaeth y TUC. Nid yn unig yw nod y tasglu i daflu goleuni ar anghyfiawnder hiliol yn y byd gwaith, ond mae hefyd yn ymwneud â gweithredu - trefnu, bargeinio ac ymgyrchu i sicrhau newid gwirioneddol i bobl sy'n gweithio. Gyda NASUWT yn arwain y ffordd yn genedlaethol.

Rwyf am gydnabod y gwaith y mae ein staff yn ei wneud gydag angerdd ac ymrwymiad i sicrhau gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n haelodau. Cynhadledd — chi yw cig a gwaed ein hundeb fel gweithredwyr lleyg, ac rydych yn haeddu'r gydnabyddiaeth am eich gwaith caled. Diolch.

Mae athrawon gwych yn newid bywydau, ac maen nhw'n dylanwadu ar yr eiliad iawn. Athrawon gwych yn dal drych o'n blaenau i weld ein potensial. Maent yn rhoi dewrder i ni, yn rhoi arweiniad i ni, ac mae athrawon gwych yn creu arweinwyr y dyfodol. Gwn hyn, fel y newidiodd athrawes wych fy mywyd; fy ysbrydoli. Gofynnodd i mi pa brifysgol roeddwn i'n bwriadu mynd a beth oeddwn i'n mynd i'w astudio yn y coleg. Roedd fy rhieni wedi cyrraedd o Kashmir yn y '60au, heb allu siarad nac ysgrifennu Saesneg. Roeddwn wedi fy magu yn Luton yn y 1970au i gefndir Enoch Powell a'i araith 'Rivers of Blood' ac ymddangosiad y Ffrynt Cenedlaethol. Nid dyna oedd y daith roeddwn i, na chymdeithas, yn disgwyl i mi ei dilyn. Fodd bynnag, mae cael rhywun i gredu ynoch yn sbardun; yn fy achos i, fy athrawes Saesneg, Mrs Burchett. Fi oedd y cyntaf o fy nheulu i fynd i'r coleg a'r brifysgol. A blynyddoedd yn ddiweddarach, pan ddarllenais ddyfyniad Nelson Mandela mai 'addysg yw'r arf mwyaf pwerus y gallwch chi ei ddefnyddio i newid y byd', roedd yn atseinio ar gymaint o lefelau. Nid yw ein proffesiwn yn gyffredin; y mae yn hynod; athrawon gwych yn siapio arweinwyr y dyfodol.

Graddiais gyda BSc Anrhydeddus mewn Gwyddor yr Amgylchedd ac yna TAR o Brifysgol Brunel. Ym 1996, fel athrawes las, newydd gymhwyso (yn llawn asbri ieuenctid) daeth Cynrychiolydd NASUWT yr ysgol ataf yn yr ystafell athrawon ar fy niwrnod cyntaf a gofyn, 'Ydych chi wedi ymuno ag undeb eto?' 'Ddim eto, Mr Duffy; Fe wnaf maes o law!' Hanes yw'r gweddill: o Gynrychiolydd Iechyd a Diogelwch, Llywydd Cymdeithas Leol ac Ysgrifennydd Negodi i Gyd-Gadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb Rhanbarth y Dwyrain, aelod o'r Cyngor Arweinyddiaeth Cenedlaethol, JVP, SVP ac, fel heddiw, Llywydd Undeb yr Athrawon – NASUWT.

Yn ystod fy 25 mlynedd (gan ddal i fynd) o addysgu, rwyf wedi addysgu Gwyddoniaeth ar draws ysgolion cynradd, uwchradd a SEMH. Yr uchafbwynt oedd bod yn uwch

arweinydd mewn uned eithrio, yn gweithio gyda'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig. Croesi'r ffin anweladwy i fyd arweinyddiaeth! Gwn na fydd byth mwy o wobr mewn addysg i mi fy hun na gweithio gyda'r garfan heriol, flinderus, ysbrydoledig hon a gwneud gwahaniaeth bob dydd.

Ond, Cynhadledd, mae ein proffesiwn mewn argyfwng oherwydd:

- flwyddyn ar ôl blwyddyn, toriadau mewn termau real i gyllidebau ysgolion a cholegau ar draws ein holl wledydd;
- rhestrau aros ar gyfer cymorth iechyd meddwl plant yn codi i'r lefelau uchaf erioed;
- toriadau i gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig – mae hyn yn agos at fy nghalon fel athrawes mewn swydd sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc mwyaf bregus ers dros 25 mlynedd;
- adeiladau ysgol sydd mewn perygl difrifol o ddymchwel;
- cannoedd o filoedd o blant yn colli addysg; a
- phrinder athrawon ym mhobman – o ganlyniad i'r argyfwng recriwtio a chadw athrawon gwaethaf ers hanner canrif.

Craciau yn ein nenfydau a holltau yn ein system addysg. Ac os yw Llywodraeth nesaf San Steffan a rhai ein gwledydd datganoledig wir eisiau amddiffyn yr hawl i addysg yn ein hysgolion a'n colegau:

- rhaid gwrthdroi'r 14 mlynedd o danariannu difrifol;
- rhaid buddsoddi yn y gweithlu gyda tâl ac amodau gwaith o'r radd flaenaf.

Dywedodd Einstein, 'Nid dysgu ffeithiau yn unig yw addysg ond hyfforddi'r meddwl i feddwl.'

Cynhaliodd NASA, yn y 1960au, astudiaeth ymchwil 'athrylith greadigol' ar blant. Yn 5 oed y sgôr creadigrwydd ymhlith plant pump oed oedd 98%; erbyn 15 mlynedd roedd yn 12%, gan ostwng i 2% fel oedolion. Drigain mlynedd yn ddiweddarach, mae angen i ni roi creadigrwydd yn ôl ar frig ein gofynion am addysg o'r radd flaenaf – galw sy'n ganolog i'n Maniffesto Athrawon.

Onid yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gyda gorddibyniaeth ar arholiadau a chyfyngu ar y dewis o bynciau, wedi methu ein pobl ifanc? Mae ein haelodau yn dweud wrthym fod pynciau ymarferol fel Celf, Cerddoriaeth a Dylunio yn cael eu dibrisio fwyfwy oherwydd pwysau atebolrwydd. Ond mae ymchwil yn dangos fel mae dysgu cerddoriaeth, er enghraifft, yn rhoi cyfle i'r ymennydd ymarfer meddyliau haniaethol a chreadigol.

Ar y gorwel, mae'r Etholiad Cyffredinol yn nesáu. Y potensial ar gyfer newid gwirioneddol, cynaliadwy yn y dirwedd addysgol. Carpe Diem – Byddwn yn achub ar y foment i drefnu a dwyn y Llywodraeth nesaf i gyfrif. Fel undeb cryf ledled y DU – ar draws y bedair gwlad, Ynysoedd y Sianel a Gibraltar – byddwn yn defnyddio eleni i frwydro dros ein holl aelodau ac i wasanaethu eu buddiannau am amodau gwaith a chyflog gwell.

Bydd yn flaenoriaeth lwyr drwy gydol 2024 i glywed lleisiau aelodau ar lawr gwlad drwy ein Cynadleddau Cydraddoldeb, Cynadleddau Gwledydd Datganoledig a Chynadleddau Rhanbarthol. Byddwn yn sicrhau'r cyfle i ymgysylltu â'n haelodau croestoriadol amrywiol a cheisio barn ein:

- aelodau benywaidd;
- aelodau ifanc;
- aelodau du;
- aelodau LGBTI;

- aelodau anabl;
- athrawon cyflenwi;
- aelodau arweinyddiaeth; a
- aelodau ysgolion annibynnol.

Mae pob aelod yn bwysig i ni.

Rhaid inni fod yn wyliadwrus wrth amddiffyn hawliau undeb llafur ein hunain – brwydrwyd yn galed drosto – rhag ymosodiadau byd-eang corfforaethau mawr a llywodraethau asgell dde.

Bydd NASUWT yn sefyll gyda'r mudiad undebau llafur cyfan wrth ymgyrchu i drechu'r Ddeddf Streiciau (Isafswm Lefelau Gwasanaeth), gan ddefnyddio pob dull sydd ar gael i ni.

Bydd NASUWT hefyd yn cryfhau ei hymgyrch am Well Bargen i Athrawon drwy gydol 2024 ar gyfer gwell cyflog ac amodau gwaith. Nid yw honno drosodd.

Mae NASUWT bob amser wedi gweithio gyda'r TUC ac Addysg Ryngwladol ehangach, a byddwn yn parhau i sefyll ochr yn ochr â'n cymrodyr undeb llafur ym mhobman. Hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a grymuso a rhoi llais i'r di-lais.

Bydd NASUWT yn parhau i frwydro dros hawliau dynol a chyfiawnder: ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Gaza ac mewn cenhedloedd eraill ar draws y byd; gweithio'n uniongyrchol gydag athrawon trwy Education International.

Mae yn ein gwaed i drefnu, strategaethu, galw am weithredu, a gwrthsefyll ymosodiadau ar ein hawliau.

Cynhadledd – mae yna rai allan yna a fydd yn dweud bod ymgyrch o wrthwynebiad yn ymwneud â thorri'r gyfraith gan undebau llafur. Mae ein mudiad wedi'i adeiladu ar wrthwynebiad a diogelu hawliau ein haelodau.

- Trechwyd y trothwy pleidlais gwrth-undeb pan bleidleisiodd ein haelodau dros weithredu diwydiannol.
- Trechwyd y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth a oedd yn torri streic yn anghyfreithlon.
- Byddwn yn defnyddio ein pŵer i sicrhau bod ein hawliau a enillwyd yn galed fel undebwyr llafur yn cael eu cryfhau.

Oherwydd, Gynhadledd, pan fyddwn yn ymladd, rydym yn ennill. Rydym yn athrawon cyffredin ond rydym wedi gwneud pethau rhyfeddol a byddwn yn parhau â'r traddodiad balch hwn. Rhowch gyfiawnder i ni neu byddwn yn brwydro!

Mae'n anrhydedd i mi fod yn Llywydd NASUWT – Undeb yr Athrawon.

Mewn undod.